



At: Bob Pennaeth Cynllunio

Annwyl Gydweithiwr

Trwyddedu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop - Hysbysiad Gweithdrefn Ddiwygiedig

Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu'ch sylw at y materion a ganlyn:

- tynnu Cylchlythyr 05/04 yn ôl
- dweud wrth Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) am ddefnyddio nodyn gwybodaeth newydd (i'w atodi i'r holl hysbysiaid caniatâd perthnasol)
- dweud wrth ACLIau am weithdrefn hysbysu newydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer rhoi Trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (Trwydded EPS).

Mae Cylchlythyr 05/04 bellach wedi'i dynnu'n ôl. O dan amgylchiadau penodol, y cyngor yw y dylid atodi amod cyn-gychwyn wrth ganiatâd cynllunio sy'n galw ar i'r ymgeisydd roi copi o'i Drwydded EPS i'r ACLI (ar ôl iddo gael ei roi gan Gyfoeth Naturiol Cymru).

Ein nod yw lleihau nifer yr amodau cyn-gychwyn sydd ynghlwm wrth ganiatadau cynllunio er ein bod yn pryderu bod yr amod hwn yn dyblygu, yn ddiangen, reolaethau deddfwriaethau eraill. Serch hynny, o gofio'r warchodaeth bwysig sydd ei hangen ar EPS, dylid defnyddio'r nodyn gwybodaeth a ganlyn pan fo EPS yn debygol o fod ar y safle:

Rhybudd: Mae'n ofynnol cael Trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (Trwydded EPS) ar gyfer y datblygiad hwn.


Nid yw'r caniatâd cynllunio hwn yn rhoi caniatâd i ymgymryd â gwaith y mae angen Trwydded EPS arno.

Mae'n drosedd dal neu ladd EPS neu aflonyddu arni'n fwriadol, neu ddifrodi neu ddifetha'n ddi-hid ei safleoedd bridio neu'i safleoedd gorffwys. Os ceir chi'n euog o unrhyw un o'r troseddau, gallech gael eich carcharu am hyd at 6 mis a/neu gael dirwy heb derfyn.

Er mwyn ymgymryd â'r gwaith yn gyfreithlon, gallwch gael gwybodaeth bellach am yr angen am drwydded oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000 neu drwy <https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/protected-species-licensing/european-protected-species-licensing/information-on-european-protected-species-licensing/?lang=cy>

Er mwyn cefnogi'r defnydd o'r hysbysiad gwybodaeth uchod, a sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer cynllunio a chynefinoedd yn gyson â'i gilydd, mae CNC wedi dweud y bydd yn cyflwyno proses newydd yn ei weithdrefn trwyddedu EPS a fydd yn golygu gosod copi o'r Drwydded EPS a roddwyd yn awtomatig ym mlwch post canolog yr ACLI perthnasol. Daeth gweithdrefn newydd CNC yn weithredol ar 1 Mawrth.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "N. Hemington". The signature is written in a cursive style and is positioned above the printed name and title.

Neil Hemington

Prif Gynllunydd | Chief Planner

Cyfarwyddiaeth Cynllunio | Planning Directorate

Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | Department for
Economy, Skills and Natural Resources